1 Conwy County Borough Council Local Land Charges On-line

Our website facilitates an exciting and convenient way to make local land charges searches over the Internet and is operated by Conwy County Borough Council. We provide an on-line facility vehicle through which those buying or selling land and property can make applications for and receive the results of local land charges searches and enquiries of local authorities ('the Services'). The Services do not include providing you with access to databases in which information used to compile the local land charges search results or replies to enquiries of local authorities is stored.

It is important that you read and understand these terms before using the Services. By accessing or using the Services, you agree to be legally bound by these terms, as they may be modified from time to time.

We reserve the right to change these terms at any time. Amendments will take effect when posted on our website (**www.conwy.gov.uk/locallandcharges**) or the **Conwy County Borough Council Local Land Charges On-line** site. However, the terms current as at the start of a particular transaction will apply until that transaction is completed.

2 Price

The prices payable for the Services are as follows:-

Joining fee*	£ 35.00*
Standard search (LLC1 & CON29)	£ 76.00
Extra Questions (CON29 Part 2)	£ 10.00 per question
Additional questions	£ 15.00 per question
Additional parcels	£ 10.40
Common Land (CR21)	£ 14.00

*Note : If more than one participating office of a Solicitors' firm or Personal Search Company or HIPS provider wish to join, a separate fee will be payable for each office.

In due course these will be shown separately on the **Conwy County Borough Council Local Land Charges On-line** site.

3 Registration

3.1 You are required to register with us by completing the registration form on the **Conwy County Borough Council Local Land Charges On-line** home page and submitting it to us. Only adults (ie those aged 18 and over) are entitled to enter into legally binding contracts and as a result are the only people entitled to use the Services. Any other individuals who are unable to form

legally binding contracts are also prohibited from using the Services. **If you do not qualify, do not use the Services.** By registering you are making a statement, upon which we are entitled to rely, that you are aged 18 years or older and capable of forming a legally binding contract either in your own right or on behalf of your firm or company.

3.2 On occasions certain users will be refused access to the Services. Such suspensions shall be within our sole discretion.

4 Information you provide

4.1 You grant us a non-exclusive, world-wide, perpetual, irrevocable, royalty-free licence to use any information you provide to us during the registration, listing or bidding process.

4.2 Such information shall be legal, decent, honest and truthful, shall not infringe any third party's rights, shall not contain any viruses or other malicious computer programming routines and shall not link to any other websites. Without limiting the above, all information you provide shall be accurate and complete and all registration details shall contain your correct name, address, and other requested details.

5 Security

You are solely responsible in all respects for all use of and for protecting the confidentiality of any email verification number and password which may be given to or selected by you for use on the **Conwy County Borough Council Local Land Charges On-line** site. You may not share these with or transfer them to any third parties. You must immediately notify us of any unauthorised use of them or any other breach of security regarding the Services.

6 Availability of the Conwy County Borough Council Local Land Charges On-line site

While we will use all reasonable endeavour to make our Services and the or the **Conwy County Borough Council Local Land Charges On-line** site available, we cannot guarantee that they will operate continuously or without interruptions. This could affect applications for local land charges searches or the replies to such applications.

7 Payment

Invoices will be raised and sent on a monthly basis (unless otherwise arranged).

Once you have received your invoice, payment can be made via various methods, as detailed on the sundry invoice.

8 Use of the Services

8.1 You may only use the Services for the making of applications for, and the delivery of the results of, local land charges searches and enquiries of local authorities in connection with the buying and selling of land or property

8.2 You will not resell the Services or the results of the local land charges searches or enquiries of local authorities without our prior written consent.

8.3 You acknowledge that the way in which it interprets or uses the results of the local land charges searches or enquiries of local authorities delivered to you as part of the Services is dependent upon the exercise of your own skill and judgment

9 Cancellation

You may not cancel a request for a search submitted through the Services after it has been accepted by Local Land Charges Unit.

10 Privacy

We will only use any information you provide, for the purposes of the Local Land Charges Unit, and in compliance with the requirements of the Data Protection Act 1998.

11 Delivery

We will deliver the local land charges search results to you at the address and or by the means you requested at the time you submitted your request. Delivery will be made as soon as possible after we have processed your request.

12 Termination

Conwy County Borough Council has in its sole discretion the right to issue a warning, temporary suspension, or an indefinite suspension and termination of your rights to use our Services if you:

12.1 act inconsistently and in breach of these terms and conditions;

12.2 at any time violate or attempt to violate any rights of any other user of the Services or third party;

12.3 are engaged in any fraudulent activity; or

12.4 fail to make any payments due to us in accordance with these terms.

13 Compliance with laws

You agree to comply with all applicable laws, statutes and regulations concerning your use of the Services.

14 General release

14.1 Your acceptance of these terms and conditions also acts as a general release of Conwy County Borough Council (and all of their officers, agents and employees) from any liability for any claims, loss, and damages (both direct and indirect, including loss of profits, goodwill and business opportunity) arising out of or in any way connected to your use of the Services and our website.

14.2 In addition, we make no representations or warranties about the accuracy, completeness or suitability for any purpose of the information and related graphics published on the **Conwy County Borough Council Local Land Charges On-line** site. From time to time our site may contain technical inaccuracies or typographical errors. All liability of Conwy County Borough Council howsoever arising for any such inaccuracies or errors is expressly excluded to the fullest extent permitted by law.

14.3 Notwithstanding the foregoing, nothing in these terms and conditions is intended to limit any rights you might have under the Local Land Charges Act 1975 or may have as a consumer under applicable local law or other statutory rights that may not be excluded nor in any way to exclude or limit our liability to you for any death or personal injury resulting from our negligence.

15 Trade marks, logos etc

All trade marks, product names and company names or logos cited herein are the property of their respective owners. No permission is given by Conwy County Borough Council in respect of the use of any

such brand names, product names or titles or copyrights and such use may constitute an infringement of the holder's rights.

16 Notices

Except as otherwise stated, any notices you wish to send to us should be e-mailed to locallandcharges@conwy.gov.uk. Any notices that we may wish to draw to your attention will be displayed on our website or the **Conwy County Borough Council Local Land Charges On-line** site.

17 Applicable law

Each and every transaction carried out on or as a result of the Services is deemed to be completed within the United Kingdom and therefore shall be governed by and interpreted in accordance with the law of England and Wales. The terms of this agreement (and any dispute, controversy, proceedings or claim of whatever nature in relation to them) shall be governed and interpreted in accordance with the law of England and Wales and the courts of England and Wales shall have exclusive jurisdiction in relation thereto.

18 Events beyond our control

Conwy County Borough Council will not be in breach of this agreement or otherwise liable for any delay in performance if to the extent that any delay or failure is due to the circumstances beyond its reasonable control and including, without limitation, strikes, lock-outs and other industrial disputes, breakdown of systems or network access, flood, fire, explosion or accident.

19 Invalidity

If any part of the terms of this agreement is unenforceable (including any provision in which we exclude our liability to you) the enforceability of any other part of these conditions will not be affected.

20 Entire agreement

This agreement, together with any document expressly referred to within its provisions, contains the entire agreement between us relating to the subject matter covered and supersedes any previous agreements, arrangements, undertakings or proposals, written or oral, between us in relation to such matters or any statements made to you by any person, including (without limitation) any of our employees or agents. Save for fraud or fraudulent misrepresentation, we shall have no liability for any such representation being untrue or misleading.

1 Pridiannau Tir Lleol Ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'n gwefan yn cynnwys ffordd gyffroes a chyfleus o wneud chwiliadau pridiannau tir lleol dros y Rhyngrwyd ac mae'n cael ei weithredu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Rydym yn cynnig cyfleuster ar-lein all gael ei ddefnyddio gan bobl sy'n prynu neu'n gwerthu tir ac eiddo i wneud ceisiadau am neu dderbyn canlyniadau chwiliadau pridiannau tir lleol ac ymholiadau i awdurdodau lleol ('y gwasanaethau'). Nid yw'r gwasanaethau'n cynnwys rhoi mynediad i chi at gronfeydd data lle mae gwybodaeth a ddefnyddir i grynhoi canlyniadau chwiliadau pridiannau tir lleol neu ymatebion i ymholiadau i awdurdodau lleol yn cael eu storio.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen a deall y telerau hyn cyn defnyddio'r Gwasanaethau. Drwy gael mynediad at neu ddefnyddio'r Gwasanaethau, rydych yn cytuno i ymrwymo'ch hun yn gyfreithiol i'r telerau hyn, ac unrhyw newidiadau iddynt o bryd i'w gilydd.

Rydym yn cadw'r hawl i newid y telerau hyn ar unrhyw adeg. Bydd newidiadau'n dod i rym ar ôl iddynt gael eu rhoi ar ein gwefan (**www.conwy.gov.uk/pridiannautirlleol**) neu ar safle **Pridiannau Tir Lleol Ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.** Fodd bynnag, mae'r telerau presennol sy'n ymddangos ar ddechrau gweithred benodol yn weithredol nes i'r weithred honno gael ei chwblhau.

2 Pris

Bydd y prisiau yn daladwy i'r Gwasanaethau fel a ganlyn:-

Ffi ymuno*	£ 35.00*
Chwiliad sylfaenol (LLC1 & CON29)	£ 76.00
Cwestiynau ychwanegol (CON29 Rhan 2)	£ 10.00 y cwestiwn
Cwestiynau pellach	£ 15.00 y cwestiwn
Parselau tir ychwanegol	£ 10.40
Tir Comin (CR21)	£ 14.00

*Nodwch : Os oes Cwmni Cyfreithwyr, Cwmni Chwiliad Personol neu Ddarparydd HIPS yn dymuno ymuno o fwy nag un swyddfa, bydd yn rhaid iddynt dalu ffi ar wahân ar gyfer pob swyddfa.

Yn y pendraw byddant yn cael eu dangos ar wahân ar safle **Pridiannau Tir Lleol Ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**.

3 Cofrestru

3.1 Mae'n rhaid i chi gofrestru efo ni drwy lenwi'r ffurflen gofrestru ar dudalen gartref **Pridiannau Tir Lleol Ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** a'i chyflwyno i ni. Dim ond oedolion (hy pobl 18 oed a throsodd) sydd â hawl i ymrwymo i gontractau cyfreithiol ac o ganlyniad, dim ond nhw sydd â hawl i ddefnyddio'r

Gwasanaethau. Mae unrhyw unigolion eraill na all ymrwymo i gytundebau cyfreithiol wedi eu gwahardd rhag defnyddio'r Gwasanaethau hefyd. **Os nad ydych yn gymwys, peidiwch â defnyddio'r Gwasanaethau.** Drwy gofrestru rydych yn gwneud datganiad, y mae hawl gennym i ddibynnu arno, eich bod yn 18 oed neu drosodd ac yn gallu ymrwymo i gontract cyfreithiol naill ai ar eich cyfer chi neu ar ran eich cwmni.

3.2 Ar rai adegau, bydd defnyddwyr unigol yn cael eu rhwystro rhag cael mynediad at y Gwasanaethau. Gallwn ddefnyddio'n disgresiwn i wahardd pobl yn y dull hwn.

4 Gwybodaeth rydych yn ei ddarparu

4.1 Rydych yn rhoi trwydded anghyfyngol, byd eang, parhaus, di-alw'n ôl, difreindal i ni ddefnyddio unrhyw wybodaeth rydych yn ei roi i ni yn ystod y cofrestru, rhestru neu'r broses gynnig.

4.2 Bydd gwybodaeth o'r fath yn gyfreithiol, gweddus, gonest a chywir, ac ni fydd yn effeithio ar hawliau unrhyw drydydd parti, ni fydd yn cynnwys unrhyw afiechydon neu unrhyw raglenni cyfrifiadurol maleisus ac ni fydd yn cysylltu i unrhyw wefannau eraill. Heb gyfyngu ar yr uchod, dylai'r holl wybodaeth rydych yn ei roi fod yn gywir ac yn gyflawn, a dylai'r holl fanylion cofrestru gynnwys eich enw cywir, cyfeiriad, ac unrhyw fanylion eraill y byddwn yn gofyn amdanynt.

5 Diogelwch

Rydych yn llwyr gyfrifol ym mhob achos am bob defnydd ac am ddiogelu cyfrinachedd unrhyw rif gwirio neu gyfrinair e-bost, fydd yn cael ei roi i chi neu ei ddewis gennych i'w ddefnyddio ar safle **Pridiannau Tir Lleol Ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**. Ni fydd hawl gennych i rannu'r rhain na'u trosglwyddo i unrhyw drydydd parti. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw ddefnydd heb ei awdurdodi ohonynt neu unrhyw doriad arall ar gyfrinachedd o safbwynt y Gwasanaethau.

6 Argaeledd safle Pridiannau Tir Lleol Ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Byddwn yn gwneud pob ymdrech bosibl i wneud yn siŵr bod ein Gwasanaethau a safle **Pridiannau Tir Lleol Ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** ar gael, ond ni allwn sicrhau y byddant yn gweithredu'n ddi-baid nac heb doriadau. Gallai hyn effeithio ar geisiadau am chwiliadau pridiannau tir lleol neu'r ymatebion i geisiadau o'r fath.

7 Taliad

Bydd anfonebau'n cael eu codi a'u hanfon bob mis
(oni bai eich bod wedi trefnu fel arall).

Unwaith rydych wedi derbyn eich anfoneb, gellir talu drwy sawl dull, fel yr amlinellir ar yr anfoneb amrywiol.

8 Defnyddio'r Gwasanaeth

8.1 Gallwch ond ddefnyddio'r Gwasanaethau i wneud ceisiadau am, a darparu canlyniadau chwiliadau pridiannau tir lleol, ac ymholiadau i awdurdodau lleol mewn cysylltiad â phrynu a gwerthu tir neu eiddo.

8.2 Ni fyddwch yn ail-werthu'r Gwasanaethau na chanlyniadau'r chwiliadau pridiannau tir lleol nag ymholiadau i awdurdodau lleol heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw.

8.3 Rydych yn cydnabod fod y ffordd y mae'n dadansoddi neu'n defnyddio canlyniadau'r chwiliadau pridiannau tir lleol neu ymholiadau i awdurdodau lleol sy'n cael eu darparu fel rhan o'r Gwasanaethau'n ddibynnol ar ddefnyddio'ch sgiliau a'ch doethineb.

9 Dileu

Ni allwch ddileu cais am chwiliad wedi ei gyflwyno drwy'r Gwasanaethau ar ôl iddo gael ei dderbyn gan yr Uned Pridiannau Tir Lleol.

10 Preifatrwydd

Byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei ddarparu, at ddibenion yr Uned Pridiannau Tir Lleol, ac yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

11 Dosbarthu

Byddwn yn dosbarthu canlyniadau eich chwiliadau pridiannau tir lleol i chi yn y cyfeiriad a neu drwy'r dull y gofynnoch amdano wrth gyflwyno'ch cais. Byddwn yn dosbarthu cyn gynted â phosibl ar ôl prosesu'ch cais.

12 Terfynu

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hawl llwyr i roi rhybudd, gwaharddiad dros dro, neu waharddiad amhenodol a therfynu'ch hawliau i ddefnyddio'r Gwasanaeth os ydych:

12.1 yn ymddwyn yn anghyson ac yn torri'r telerau a'r amodau hyn;

12.2 ar unrhyw bryd yn torri neu'n ceisio torri ar hawliau unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth arall, neu drydydd parti;

12.3 yn cymryd rhan mewn gweithgaredd twyllodrus; neu'n

12.4 methu gwneud unrhyw daliadau sy'n ddyledus dan y telerau hyn.

13 Cydymffurfio gyda'r cyfreithiau

Rydych yn cytuno i gydymffurfio gyda phob deddf, statud a rheoliad perthnasol sy'n ymwneud â'ch defnydd o'r Gwasanaethau.

14 Rhyddhad cyffredinol

14.1 Drwy gytuno i'r telerau a'r amodau hyn, rydych yn rhyddhau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (a'i holl swyddogion, asiantau a gweithwyr) yn gyffredinol o unrhyw atebolrwydd am unrhyw hawliadau, colledion, a niwed (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, gan gynnwys colli elw, ewyllys da a chyfle busnes) a ddaw yn sgil neu mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â'ch defnydd o'r Gwasanaethau a'n gwefan.

14.2 Yn ychwanegol, nid ydym yn gwneud unrhyw sylwadau nac yn rhoi unrhyw sicrwydd am gywirdeb, cyflawnrwydd, nac addasrwydd y wybodaeth a'r graffeg cysylltiedig sy'n cael ei gyhoeddi ar safle **Pridiannau Tir Lleol Ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** at unrhyw bwrpas. O bryd i'w gilydd gallai'n safle gynnwys anghysonderau technegol neu gamgymeriadau teipio. Mae holl atebolrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a allai godi'n yn sgil unrhyw anghysonderau neu wallau o'r fath wedi'i eithrio'n llwyr i'r graddau llawnaf a ganiateir dan y gyfraith.

14.3 Er gwaethaf yr uchod, nid oes unrhyw beth yn y telerau a'r amodau hyn sydd wedi ei fwriadu i gyfyngu unrhyw hawliau sydd gennych dan Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 neu fel defnyddiwr dan ddeddfwriaethau lleol perthnasol neu hawliau statudol eraill na allant gael eu cyfyngu na eithrio a chyfyngu, mewn unrhyw ffordd, ar ein hatebolrwydd i chi am unrhyw farwolaeth neu anaf personol sy'n digwydd o ganlyniad i'n esgeulustod

15 Nodau masnachol, logos ac ati

Mae pob nod masnachol, enw cynnyrch ac enw cwmni neu logos sydd wedi'i nodi yma yn berchnogaeth eu perchnogion unigol. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhoi unrhyw ganiatâd o safbwynt y defnydd o unrhyw enw brand, enw cynnyrch, neu deitlau, hawlfreintiau a phethau cyffelyb y gallai eu defnydd dorri ar hawliau'r Deilydd.

16 Rhybuddion

Oni bai ein bod yn nodi fel arall, dylid e-bostio unrhyw rybuddion rydych yn dymuno eu hanfon atom i pridiannautirlleol@conwy.gov.uk. Bydd unrhyw rybuddion rydym yn dymuno tynnu eich sylw atynt yn cael eu harddangos ar ein gwefan neu wefan **Pridiannau Tir Lleol Ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**.

17 Deddfwriaeth berthnasol

Byddwn yn ystyried fod pob trosglwyddiad a wneir ar neu o ganlyniad i'r Gwasanaethau wedi'i gwblhau yn y Deyrnas Unedig, ac felly byddant yn cael eu rheoli a'u dehongli'n unol â chyfraith Cymru a Lloegr. Mae telerau'r cytundeb hwn (ac unrhyw wrthdaro, dadl, digwyddiad neu hawliad o ba bynnag natur mewn perthynas â hwy) yn cael eu llywodraethu a'u dehongli'n unol â chyfraith Cymru a Lloegr a chyfrifoldeb cyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr fydd delio â'r deddfau hyn.

18 Digwyddiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth

Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn torri'r cytundeb hwn nac yn atebol fel arall am unrhyw oedi mewn perfformiad os yw'r oedi neu fethiant wedi digwydd o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth resymol, ac yn cynnwys, heb gyfyngiad, streiciau, cloi allan, ac unrhyw wrthdystio diwydiannol arall, toriad ar systemau neu fynediad i'r rhwydwaith, llifogydd, tân, ffrwydriaid neu ddamwain.

19 Annilysrwydd

Os yw'n amhosibl gweithredu unrhyw ran o delerau'r cytundeb hwn (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth lle rydym yn cyfyngu ein hatebolrwydd i chi), ni fydd yn effeithio ar y gallu i weithredu unrhyw ran arall o'r amodau hyn.

20 Cytundeb cyfan

Mae'r cytundeb hwn, yn ogystal ag unrhyw ddogfen a gyfeirir yn benodol ati yn ei ddarpariaethau, yn cynnwys y cytundeb llawn rhyngom ni sy'n ymwneud â'r testun dan sylw, ac yn cymryd drosodd oddi wrth unrhyw gytundebau, trefniadau, ymrwymiadau, neu gynigion blaenorol, yn ysgrifenedig neu ar lafar, rhyngom mewn perthynas â materion o'r fath neu unrhyw ddatganiadau a wnaed i chi gan unrhyw unigolyn arall, gan gynnwys (heb gyfyngiad) unrhyw un o'n gweithwyr neu'n asiantau. Ac eithrio twyll neu gamddehongli twyllodrus, ni fyddwn yn atebol o gwbl am unrhyw sylw o'r fath fydd yn anwir neu'n gamarweiniol.